# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Ionawr 2024

Amser: 09.30 - 12.19

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13669) yn:
http://senedd.tv/cy/13669

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Russell George AS (Cadeirydd)<br>Mabon ap Gwynfor AS<br>Gareth Davies AS<br>Sarah Murphy AS<br>Jack Sargeant AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Dyfed Edwards, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru<br>Yr Athro Jim McManus, Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Dr Zoe Wallace, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Claire Morris (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Angharad Lewis (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr: sesiwn dystiolaeth gyda'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dyfed Edwards, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 3 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 4 a 7 o gyfarfod heddiw ac ar gyfer y cyfarfod ar 1 Chwefror 2024

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Gwrandawiad cyn penodi: trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

4.2 Byddai'r Pwyllgor yn cytuno ar ei adroddiad drwy e-bost, cyn ei gyhoeddi ddydd Gwener 26 Ionawr.

## 5 Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig: sesiwn dystiolaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru

5.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru.

5.2 Cytunodd yr Athro McManus i ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch y materion a ganlyn;

- pa glefydau prin a chyflyrau cronig y mae babanod newydd-anedig yn cael eu sgrinio ar eu cyfer
- canfyddiadau'r adolygiad o'r cynllun cenedlaethol atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff
- gwybodaeth am sut y gwnaeth y Ffindir wrthdroi ei chyfraddau clefyd y galon
- enghreifftiau pellach o feysydd a all gefnogi gwaith atal nad oes ganddynt gost ariannol neu sydd mewn gwirionedd yn dod ag arbediad ariannol.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, gyda chwestiynau dilynol o'r sesiwn graffu gyffredinol ar waith y Gweinidogion ar 8 Tachwedd 2023

6.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 6.2 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i'r Cadeirydd, gyda chwestiynau dilynol o'r sesiwn graffu gyffredinol ar waith y Gweinidogion ar 8 Tachwedd 2023

6.2 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

## 7 Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig: trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.